

Ymchwilydd Cymdeithasol

Cyflwyniad

Mae ymchwilydd cymdeithasol yn casglu ac yn dadansoddi gwybodaeth am ddatblygiadau, tueddiadau ac agweddau mewn cymdeithas. Defnyddir eu canfyddiadau i helpu i wneud polisi cymdeithasol, rhoi sylw ar agweddau ar fywyd modern, neu farchnata nwyddau a gwasanaethau.

Maent yn gweithio mewn llywodraeth leol a chanolog, sefydliadau ymchwil annibynnol, ymchwil i'r farchnad, neu addysg uwch.

Adwaenir hefyd fel

- Ymchwilydd, Cymdeithasol

Gweithgareddau Gwaith

Fel Ymchwilydd Cymdeithasol, byddwch yn defnyddio dulliau ymchwil gwahanol i ganfod am ddatblygiadau, tueddiadau ac agweddau mewn cymdeithas. Ceir dau brif fath o ymchwil. Mae ymchwil feintiol fel arfer yn cynnwys samplau mawr (dros 100 o bobl fel arfer) a data mesuradwy. Ceir y data fel arfer trwy ddefnyddio holiaduron. Mae ymchwil ansoddol yn defnyddio niferoedd llai o bobl ac yn canolbwyntio'n ddyfnach ar eu safbwyntiau a'u profiadau. Gellir gwneud hyn gan ddefnyddio grwpiau ffocws. Mae'r rhain yn cynnwys nifer fach o bobl ddethol, sy'n cael eu hannog i drafod pwnc arbennig. Mae ymchwilydd hefyd yn cyfwrdd â phobl ar sail un i un. Gallai fod gan ymchwilydd gyfrifoldeb am un maes o brosiect ymchwil neu gallent fod yn gysylltiedig â'r holl beth. Mae hyn yn dibynnu ar y math o sefydliad a maint y sefydliad rydych yn gweithio iddo. Mae ymchwilydd yn defnyddio cyfrifiaduron i ddadansoddi data a chreu ystadegau, graffiau a modelau. Ar ddiwedd prosiect, mae Ymchwilydd Cymdeithasol yn ysgrifennu adroddiad sy'n amlinellu nodau, canlyniadau, casgliadau ac argymhellion yr ymchwil. Mae canfyddiadau prosiect wedi ei gwblhau yn aml yn cael eu rhoi mewn cyflwyniad i bobl sydd â diddordeb yn y materion sy'n cael eu codi. Mae Ymchwilydd Cymdeithasol yn helpu i ffurfio a monitro polisi cymdeithasol mewn adrannau llywodraeth ganolog. Mae gwybodaeth am agweddau cyhoeddus ar ddeiet, cyffuriau ac alcohol (er enghraifft) yn helpu'r llywodraeth i osod targedau gofal iechyd a chreu llenyddiaeth sy'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd. Mae ymchwil i droseddau'n helpu'r heddlu a gallai arwain at newidiadau yn y gyfraith. Mewn llywodraeth leol, mae ymchwil yn tueddu i fod yn benodol iawn i bolisi. Byddwch yn helpu awdurdodau lleol trwy greu gwybodaeth am dai, addysg, gwasanaethau cymdeithasol a chynllunio. Er enghraifft, byddwch yn canfod safbwyntiau pobl am gyflwr tai, neu effaith ffordd newydd. Mae gan y llywodraeth a sefydliadau ymchwil i'r farchnad ddiddordeb mewn agweddau ac ymddygiad defnyddwyr. Byddwch yn gofyn i bobl am eu penderfyniadau i arbed neu fenthg arian, neu am brynu tai a cheir. Mae hyn yn helpu'r llywodraeth i asesu hyder yn yr economi, a busnesau i adnabod cynnyrch a marchnadoedd newydd. Mae'n bosibl y bydd y gallu i ddarllen, ysgrifennu a siarad Cymraeg o fantais ichi wrth chwilio am waith yng Nghymru.

Rhinweddau Personol a Sgiliau

I ddod yn Ymchwilydd Cymdeithasol, bydd angen:

- diddordeb mewn datblygiadau, tueddiadau ac agweddau cymdeithasol
- meddwl ymchwiliol a dadansoddol
- bod yn gyfarwydd â nifer o dulliau ymchwil
- dull trwyadl o wneud eich gwaith
- y gallu i gynllunio a chynnal arolygon
- sgiliau cyfathrebu a rhyngpersonol da
- sgiliau TG i greu ystadegau, graffiau a modelau
- sgiliau trefnu da
- y gallu i weithio o dan bwysau ac i derfynau amser
- gallu esbonio eich canfyddiadau'n glir, ar lafar ac mewn adroddiadau ysgrifenedig

Cyflwg a Chyfleoedd

Cyflwg Cyfraddau cyflwg bras yw'r cyfraddau isod.



- Cyflog cychwynnol: £21,000 - £26,000
- Gyda phrofiad: £29,500 - £34,000

Oriau gwaith Mae Ymchwilwyr Cymdeithasol yn gweithio wythnos 39 awr, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Efallai y bydd angen gweithio'n hwyr yn achlysurol ac ar benwythnosau, yn dibynnu ar natur y prosiect a'r terfynau amser. **Ble allwn i weithio?** Cyflogwr sengl mwyaf Ymchwilwyr Cymdeithasol yw'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), sydd â chanolfannau yn Llundain, Casnewydd (Cymru) a Titchfield (Hampshire). Mae nifer o Ymchwilwyr Cymdeithasol yn gweithio mewn adrannau eraill y llywodraeth ac asiantaethau mewn amrywiaeth o feysydd pwnc a pholisi. Mae cyflogwyr eraill yn cynnwys:

- y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil Cymdeithasol (NatCen)
- y llywodraeth leol
- addysg uwch
- asiantaethau ymchwil i'r farchnad
- elusennau a sefydliadau gwirfoddol
- sefydliadau ymchwil annibynnol megis y Sefydliad Astudiaethau Polisi

Mewn addysg uwch, mae nifer o ganolfannau ymchwil prifysgol, megis yr Uned Ymchwil Polisi Cymdeithasol yn Efrog. Mae cyfleoedd eraill ar gael i Ymchwilwyr Cymdeithasol gyda chyflogwyr mewn canolfannau rhanbarthol mewn trefi a dinasoedd ledled y DU. **Ble mae swyddi gwag yn cael eu hysbysebu?** Mae swyddi gwag yn cael eu hysbysebu mewn papurau newydd cenedlaethol, ar fyrddau gwaith, ar wefannau cyflogwyr, yn y Ganolfan Byd Gwaith ac ar wefan Universal Jobmatch.

Llwybrau Mynediad a Hyfforddiant

Llwybrau Mynediad Mae gofynion mynediad yn amrywio yn ôl natur y sefydliad. Efallai y byddwch yn gallu mynd i mewn i yrfa Ymchwil Gymdeithasol yn syth ar ôl gradd. Mae pynciau perthnasol yn cynnwys:

- cymdeithaseg
- gwleidyddiaeth
- polisi cymdeithasol
- economeg
- daearyddiaeth
- mathemateg

Fodd bynnag, mae angen gwybodaeth bellach o ddulliau Ymchwil Gymdeithasol fel arfer i ymuno â'r yrfa hon. Gallech ennill y wybodaeth hon trwy gymhwyster ôl-raddedig, fel gradd Meistr mewn dulliau ymchwil gymdeithasol (yn aml y dewis mwyaf ffafriol) neu radd ymchwil fel MPhil neu PhD. Ffordd wych o ddechrau ar yr yrfa hon yw trwy interniaeth. Darllenwch ein herthygl wybodaeth ar 'Interniaethau' am ragor o fanylion. Mae rhai prifysgolion yn darparu cyrsiau rhyngosod gyda lleoliad am flyyddyn mewn diwydiant. Mae hefyd yn ddefnyddiol chwilio am waith yn ystod y gwyliau ym maes ymchwil gymdeithasol tra byddwch yn y brifysgol. Mae rhai sefydliadau ymchwil i'r farchnad yn recriwtio graddedigion dan hyfforddiant gyda'r posibilrwydd o arbenigo mewn Ymchwil Gymdeithasol.

Profiad Gwaith Byddai profiad blaenorol o weithio mewn swydd weinyddol neu reoli yn ddefnyddiol iawn ar gyfer yr yrfa hon. Os oes gennych ryw faint o sgiliau ymchwil, byddai hyn yn rhoi mantais i chi. **Hyfforddiant** Bydd y rhan fwyaf o gyflogwyr yn cynnig hyfforddiant perthnasol i Ymchwilwyr Cymdeithasol pan fyddant mewn swydd. **Dilyniant** Gyda phrofiad, mae'n bosibl symud ymlaen i swydd uwch ymchwil neu rôl sydd â chyfrifoldebau gorchwylio neu reoli.

Cymwysterau

I ddilyn gradd mewn cymdeithaseg, y gofyniad sylfaenol fel arfer yw:

- 2/3 Safon Uwch
- TGAU gradd C neu uwch mewn 2/3 o bynciau eraill. Mae mathemateg a Saesneg yn ddymunol fel arfer

Gallai cymwysterau eraill, fel cymhwyster BTEC lefel 3 neu Ddiploma'r Fagloriaeth Ryngwladol hefyd gael eu hystyried. Mae gofynion mynediad ar gyfer cyrsiau gradd yn amrywio; gwiriwch brosbectysau yn ofalus. Mae rhai prifysgolion yn derbyn Bagloriaeth Cymru yn gyfwerth ag 1 cymhwyster Safon Uwch.

Cyfleoedd i Oedolion

Terfynau oed

Mae'n anghyfreithlon i unrhyw sefydliad osod terfynau oed ar gyfer dechrau ar gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant, oni bai eu bod yn gallu dangos bod angen gwirioneddol dros gael y terfynau hyn.

Mynediad

Bydd gan gychwynwyr â sgiliau a galluoedd ymchwil perthnasol fantais.

Gallech gael profiad gwerthfawr o waith blaenorol mewn rôl reoli neu weinyddol, neu trwy weithio i sefydliad ymchwil i'r farchnad.

Cyrsiau

Os nad oes gennych y cymwysterau sydd eu hangen i wneud eich cwrs gradd neu HND dewisol, gallai cwrs Mynediad i goleg neu brifysgol (ee. Mynediad i'r Gwyddorau Cymdeithasol) fod yn ffordd i mewn. Fel arfer, nid oes angen unrhyw gymwysterau ffurfiol, ond dylech wirio manylion cyrsiau unigol.

Mae diplomâu a graddau ôl-radd rhan-amser mewn ymchwil gymdeithasol a meysydd cysylltiedig ar gael mewn nifer o sefydliadau addysg uwch.

Mae Prifysgol Ulster yn cynnig MSc dysgu o bell mewn Sgiliau Ymchwil Gymdeithasol gydag Arbenigeddau. Mae Rhaglen Ryngwladol Prifysgol Llundain yn cynnig cwrs ôl-radd mewn ymchwil addysgol a chymdeithasol, trwy ddysgu o bell.

Ystadegau

- Mae 25% o ymchwilwyr y gwyddorau cymdeithasol yn gweithio'n rhan-amser.
- Mae gan 43% oriau hyblyg.
- Mae 17% yn gweithio dros dro.

Gwybodaeth Bellach

Cysylltiadau

- **Civil Service Jobs**
Gwefan www.civilservice.gov.uk/jobs
- **Open University (OU)**
Ffôn 0845 3006090
Gwefan www.open.ac.uk
- **Guardian Society**
Gwefan www.guardian.co.uk/society
- **University of London International Programmes**
Ffôn 020 7862 8360
Gwefan www.londoninternational.ac.uk
- **Economic and Social Research Council (ESRC)**
Cyfeiriad Polaris House, North Star Avenue, Swindon SN2 1UJ
Ffôn 01793 413000
E-bost esrcenquiries@esrc.ac.uk
Gwefan www.esrc.ac.uk
- **Office for National Statistics (ONS)**
Cyfeiriad Customer Contact Centre, Room 1.101, Government Buildings, Cardiff Road, Newport, South Wales NP10 8XG
Ffôn 0845 6013034
E-bost info@ons.gsi.gov.uk
Gwefan www.ons.gov.uk

- **National Centre for Social Research (NatCen)**
Cyfeiriad 35 Northampton Square, London EC1V 0AX
E-bost info@natcen.ac.uk
Gwefan www.natcen.ac.uk
- **Social Research Association (SRA)**
Cyfeiriad 24-32 Stephenson Way, London NW1 2HX
Ffôn 020 7388 2391
E-bost admin@the-sra.org.uk
Gwefan the-sra.org.uk
- **Scottish Centre for Social Research (ScotCen)**
Scottish enquiries
Cyfeiriad 73 Lothian Road, Edinburgh EH3 9AW
Ffôn 0131 2282167
Gwefan www.scotcen.org.uk
- **Government Social Research Service (GSR)**
E-bost gesr.enquiries@hmtreasury.gsi.gov.uk
Gwefan www.civilservice.gov.uk/networks/gsr
- **Social Policy Research Unit (SPRU)**
Cyfeiriad University of York, Heslington, York YO10 5DD
Ffôn 01904 321950
E-bost spru@york.ac.uk
Gwefan www.york.ac.uk/inst/spru/
- **Wales Institute of Social and Economic Research, Data and Methods (WISERD)**
Cyfeiriad 46 Park Place, Cardiff, CF10 3BB
Ffôn 029 2087 9338
E-bost WISERD@cardiff.ac.uk
Gwefan www.wiserd.ac.uk
- **People Exchange Cymru (PEC)**
Public sector recruitment portal for Wales
E-bost peopleexchangeymru@gov.wales
Gwefan www.peopleexchangeymru.org.uk/home

Gyrfaoedd sy'n gysylltiedig

- Cyfieithydd
- Llyfrgellydd
- Cynorthwy-ydd Llyfrgell
- Archaeolegydd
- Archifydd
- Dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain (BSL)/Cyfieithydd Saesneg
- Gweinyddwr Celfyddydol
- Gwyddonydd Gwybodaeth
- Dehonglydd/Cyfieithydd
- Cynorthwydd Amgueddfa/Oriel
- Cadwraethydd Amgueddfa/Oriel Gelf
- Curadur Amgueddfa/Oriel Gelf
- Mynegiwr
- Ymchwilydd Gwleidyddol